**HYSBYSIAD CADARNHAU GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL**

**ADRAN 53 O DDEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(YCHWANEGU LLWYBR TROED O DALE VIEW, CEFN CRIBWR I LWYBR 40 CEFN CRIBWR)**
**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF. 1 2025**

Cadarnhawyd y Gorchymyn uchod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 02/07/2025. Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw addasu'r Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt y llwybr troed o gyffordd y briffordd a gynhelir ger Dale View, Cefn Cribwr, Pwynt A (Cyfeirnod Grid SS 86418273), sy'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am tua 34 metr at ei gyffordd â Llwybr Troed 40 Cefn Cribwr ym Mhwynt B (Cyfeirnod Grid SS 86378275).

Daeth y gorchymyn i rym ar y dyddiad y'i cadarnhawyd. Fodd bynnag, os bydd unrhyw un y mae'r gorchymyn yn tramgwyddo arnynt yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw oddi mewn i bwerau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf, neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, caiff gyflwyno cais i'r Uchel Lys, o dan Atodlen 15 paragraff 12 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, cyn pen 42 diwrnod ar ôl 10/07/2025.

Gellir archwilio copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn, ac maent ar gael yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell y Pîl, Canolfan Fywyd y Pîl, Helig Fan, Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6BS yn ystod ei horiau agor; Dydd Llun i Ddydd Gwener 9:00am tan 6:00pm a Dydd Sadwrn 9:00am tan 3:00pm. Fel arall, gellir archwilio'r gorchymyn a'r map ar-lein yn https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642545. Gellir hefyd archwilio copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn, neu eu cael yn rhad ac am ddim wrth y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa.

Os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01656 643643.

Mae'r cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg, bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg yn cael ei hateb yn Saesneg ac ni fydd gohebu yn Saesneg yn arwain at oedi wrth ymateb.

DYDDIEDIG**:** 10.07.2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

Cyf Cyfreithiol: HIG001-1108/A763/1/291